CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR NOS FERCHER 29.07.2026 YN Y GANOLFAN, WAUNFAWR.

Presennol – Cynghorwyr

Hawys Tuff (Cadeirydd)
Dafydd Davies
Doug Jones
Edgar Owen
Elfyn Griffith
Liz Daniel
Sali Burns
Shoned Griffith (Clerc)

1. Croeso'r Cadeirydd - Croesawodd y Cadeirydd pawb oedd yn bresennol.

2. Ymddiheuriadau – Cyng ID, Cyng Delyth Jones, Cyng MT

3. Ymweliad gan Catrin, Partneriaeth Dyffryn Peris.
Cyflwynwyd Catrin i'r Cyfarfod gan y Cyng DD, a chafwyd adroddiad ar lafar gan Catrin Yn adrodd ar ganlyniadau arolwg sydd wedi ei gynnal yn ddiweddar yn ardal Dyffryn Peris gan ganolbwyntio ar ganyniadau Pentref Waunfawr. Mae copi o'r adroddiad llawn i'w weld ar wefan Partneriaeth Dyffryn Peris, neu croeso i unrhywun sydd a diddordeb mewn gweld yr adroddiad gysylltu a'r Cyngor Cymuned.

Bydd Catrin yn bresenol yn ein cyfarfod nesaf o'r Cyngor Cymuned hefyd er mwyn hwyluso y drafodaeth ynglyn a syniadau a chynlluniau y Cyngor Cymuned ar gyfer ein blaenoriaethau tymor byr, canolig, a hir i'r dyfodol.

4. Datganiadau aelodau yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

4.1. Ni ddatganwyd gwybodaeth ychwanegol i'r uchod, nag a restrir yn barod o fewn cofrestr 'Datganiad Cyffredinol o Fuddiannau Personol Aelodau'.

5. Derbyn Cofnodion Cyfarfod 24.06.2026
Cynnigwyd gan y Cyng EG bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir, y Cyng EO yn eilio.

6. Materion yn codi o'r Cofnodion 24.06.2026
Materion Caeathro –
Troedffordd o Gaeathro i Gaernarfon - Ar 'hold' ar hyn o bryd.
Gor-yrru – Parhau i fod yn broblem drwy'r pentref.
Arwydd Caeathro – wedi ei osod.
Potiau Blodau – Cyng MT i holi Clwb Garddio yn y pentref neu Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro am bris i gadw'r potiau yn daclus.

Materion Waunfawr –
Les tir tu ol i'r Ganolfan / **Cae Aml-dywydd** – Cyng SB a'r Cyng DD wedi mynd drwy y pwyntiau a godwyd gan ein cyfreithwyr PJL ynglyn a'r Les ac wedi ymateb i'r cyfrethwyr PJL a Chyngor Gwynedd. Swyddog o Cyngor Gwynedd yn mynd i gyfarfod a aelodau'r Cyngor Cymuned ac archwilio y cae aml-dywydd i weld y gwaith sydd ei angen ei wneud.

Trafodwyd y gyllideb a nodwyd fod yr incwm wedi bod oddeutu £965 y flwyddyn.

Cafwyd trafodaeth ynglyn a'r cae, nodwyd gan y Cyng DD ei fod wedi cysylltu a Byw'n Iach sydd yn fodlon ein cefnogi. Bydd rhaid penderfynu heno be ydi penderfyniad y Cyngor Cymuned, cynnigwyd gan y Cyng DD ein bod yn parhau a'r Les, cael cytundeb mewn lle a rhaglennu ar gyfer y dyfodol. Cafwyd pleidlais a mi roedd 5 o blaid ein bod yn cario'n mlaen gyda'r Les, 1 yn erbyn a ni bledleisiodd y Cyng EO. Bydd rhaid cael system bwcio a trefnu i rhywun lanhau y cae yn rheolaidd. Nodwyd fod Cyngor Gwynedd wedi gofyn hefyd os fyddai gan y Cyngor Cymuned ddiddordeb yn cymryd Les ar y cael peldroed hefyd? Penderfynwyd y byddem yn trafod hyn eto ac i bawb gysidro yn y cyfamser.
Baw Ci - Parhau i fod yn broblem.
Gwefan – Wedi ei diweddaru. Sylwadau wedi eu dileu bellach.
Tyllau yn y ffordd / Peintio llinellau - Aros i Gyngor Gwynedd ail-beintio llinellau gwyn/melyn yn y pentref i gyd a'r llinellau gwyn ar lôn yr Efail (Smithy). Ar y rhaglen waith.
Arwydd Stâd Bod Hyfryd – Dal yn aros i Gyngor Gwynedd osod arwydd newydd.
Gor-yrru – Parhau i fod yn broblem drwy'r pentref. Y Cyng EG wedi cysylltu a Go Safe i gwyno ac i ofyn am bresenoldeb heddlu yn y pentref i fonitro traffic.
Goleuadau'n Fflachio – I'w gysidro yn sgil y feddygfa newydd i'r dyfodol.
Potiau Blodau – Cyng SB wedi bod yn cynnal a chadw'r potiau o amgylch y pentref eto. Gwaith yn parhau.
Lon Garreg Fawr – Coed wedi eu torri, Cyng EG wedi derbyn cwynion ynglyn a tyllau yn y ffordd.
Chwyn – Swyddog wedi bod o amgylch y pentref hefo chwynladdwr, ddim i weld wedi gwneud o flaen stad Bod Hyfryd.

Grant Gwynedd Ni – Cais am grant o £12,500 wedi ei dderbyn. Byddwn yn prynu-

- 40 o gadeiriau newydd i'r Ganolfan a'r Clwb Snwcer
- Torri Coed a llwyni wrth y Ganolfan a'r caeau chwarae,

Wedi cael grant CIST Gwynedd ar gyfer talu am adroddiad anabledd a mynediad i'r Ganolfan, bydd hyn yn cael ei wneud diwedd Awst.

7. **Sedd Wag –** Cyng EG wedi cael rhywun a all fod a diddordeb, mynd i gysylltu a fo ymhellach.

8. **Gerddi Bach –** Cwmni MacVenture wedi ymweld a'r cae a wedi darparu adroddiad o'r diffygion sydd angen sylw i'r offer chwarae er mwyn dod i fyny i safon. Cost y gwaith yn £4,260. Cadarnhawyd fod pawb yn hapus ac i'r Clerc gadarnhau gyda'r cwmni i wneud y gwaith. Nodwyd gan y Cwmni bod y cae yn saff i'w ddefnyddio. Cafwyd pris hefyd i osod swing ar gyfer babanod yna – cost o £6,350 am un sedd,

Clerc i gysylltu yn nol i holi faint yn fwy fysa cael fframar gyfer 2 sedd ac adrodd yn nol.

Grwp Cynefin wedi cwblhau y gwaith oedd ei angen. Ffens wedi ei thynnu lawr, a'r gwair wedi ei dorri.

9. Adroddiadau

a. Lloches Bws – Aros am bris ar gyfer set metal ar gyfer lloches ger yr hen bost. Dal i aros i'r enwau gael eu newid.

b. Y Fynwent –Aros pris gan G R Services i ddymwel a clirio y gorlan swbriel.

c. Llwybrau – Dim pellach ar hyn o bryd. Wedi cysylltu gyda G R Services i dorri y llwybrau.

ch. Cynllun Gwyrfai Gwyrdd – Dim pellach i'w adrodd ar hyn o bryd.

d. Gwaith atal llifogydd Waunfawr – Dim i'w adrodd ar hyn o bryd.

.

10. Materion Cynllunio

- **Ceisiadau newydd**

Dyddiad Cofrestru	Bwriad	Lleoliad	Rhif Cais	Sylwadau

11. Gohebiaeth

Unllais Cymru
MacVenture - gwaith atgyweirio Gerddi Bach, a dyfynbris ar gyfer swing babi.
Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Cyngor Gwynedd - Cais grant Gwynedd Ni
Eco'r Wyddfa
Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro - ffi torri gwair Caeathro am y flwyddyn
Cyngor Gwynedd - Cae Synthetiig Waunfawr
Pritchard Jones Lane - Cae Synthetig Waunfawr
Band Llanrug - llythyr diolch am y Rhodd
Cyngor Gwynedd - Haf yn eich Cymuned
Byw'n Iach, Cyngor Gwynedd - Cae Synthetig Waunfawr
Cyng EO - Maes Parcio ger yr Hen Bost
Cludiant
Ardoll Twristiaeth - Ymghynghoriad ar Gynnig Ardoll Ymwelwyr Gwynedd
Cyngor Gwynedd - Rhybudd Cau Ffordd
Etholiad - Arolwg Cymunedol
Archwilio Cymru - anfonebau i'w talu.

12. Materion Ariannol

12.1 Arian wedi ei dalu allan

£90.00	Tony Brown peintio safle bws
£22.80	Antur Waunfawr
£200.00	Canolfan Waunfawr
£440.00	Archwilio Cymru
£790.00	G R Services
£144.00	Tony Brown (glanhau safle bws am y flwyddyn 25/26)
£144.00	Cae Chwarae Caeathro (glanhau safle bws am y flwyddyn 25/26)
£300.00	Rhodd Paned a Sgwrs

£200.00 Rhodd Urdd Gobaith Cymru
£200.00 Rhodd Eco'r Wyddfa
£100.00 Rhodd Amibwlans Awyr Cymru
£350.00 Rhodd Ysgol Brynrefail
£100.00 Rhodd Seindorf Arian Llanrug
£100.00 Rhodd Seindorf Arian Deiniolen
£100.00 Rhodd Gwyl Gerdd Dant
£652.50 Yswiriant 26/27.

12.2 Arian a dderbyniwyd
£1,367.92 ad daliad TAW gan HMRC ar gyfer 2024/25.

12.3 Anfonebau i'w talu
£25.00 Rhodd Cadeirydd 2025/56
£265.29 Cyflog Clerc Mehefin
£52.00 HMRC
£600 Cyfeillion Cae Chwarae Caeathro – ad-daliad torri gwair
£847.91 Archwilio Cymru
£1,473.00 G R Services
£288.00 A Hughes-Jones, Dyson & Co
£420.00 MacVenture
£516.00 Cyflog Clerc Gorffennaf ac Awst
£104.00 HMRC

21.4 Ffioedd Banc
Mehefin – Gorffennaf - £3.20
Gorffennaf – Awst - £0.80

14. Dyddiad a Lleoliad y Cyfarfod Nesaf
Nos Fercher, 09.09.2026, yn y Ganolfan yn Waunfawr.

15. Materion Aelodau. -
Cyng EO – Dim wedi ei dderbyn
Cyng SB - Dim wedi ei dderbyn
Cyng DJ - Dim wedi ei dderbyn
Cyng ID - Dim wedi ei dderbyn
Cyng LD - Dim wedi ei dderbyn
Cyng MT - Dim wedi ei dderbyn
Cyng DJ - Dim wedi ei dderbyn
Cyng HT - Dim wedi ei dderbyn
Cyng DD- Dim wedi ei dderbyn
Cyng EG- Dim wedi ei dderbyn